Theatrau Sir Gâr Carmarthenshire

Ffwrnes Lyric Glowyr

# CYNLLUN PRENTISIAETH TECHNEGOL

# PECYN GWYBODAETH

TheatrauSirGar.co.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Mae Theatrau Sir Gâr yn chwilio am ymgeisydd addas i gymryd rhan yn y Cynllun Prentisiaethau Technegol sy'n cael ei weithredu ledled Cymru gan Ganolfan Mileniwm Cymru.

Bydd prentisiaid yn derbyn blwyddyn o gyflogaeth llawn amser, â thâl. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi'i leoli gyda Theatrau Sir Gâr ond yn cael ei gyflogi gan Ganolfan Mileniwm Cymru.

Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal yn Theatr y Ffwrnes, Llanelli.

# Cynllun Prentis Technegol 2023/24

Mae'r cynllun yn cael ei harwain gan Ganolfan Mileniwm Cymru mewn cydweithrediad â theatrau eraill ledled Cymru, a’r bwriad yw caniatáu i ymgeiswyr ddatblygu eu sgiliau presennol mewn amgylchedd byd go iawn a'u paratoi ar gyfer cyflogaeth llawn amser yn y diwydiant theatr.

Byddwch yn hyfforddi ac yn datblygu eich sgiliau ym maes cynhyrchu theatr dechnegol, fel sain, goleuadau a rheoli llwyfan technegol. Mae'r brentisiaeth yn cael ei chynnig ar y cyd â Choleg Caerdydd a'r Fro lle bydd unigolion yn gweithio tuag at dystysgrif Lefel 3 mewn Theatr Dechnegol: Sain, Golau a Llwyfan.

Bydd y brentisiaeth yn dechrau ym mis Hydref 2024 ac yn para am 12 mis gyda chyflogaeth llawn amser, â thâl. Byddwch yn gweithio yn nhair lleoliad Theatrau Sir Gâr yn Llanelli, Caerfyrddin, a Rhydaman a bydd gofyn i chi gwblhau wythnos ymsefydlu yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd gydag wythnosau eraill o bosibl wedi'u lleoli yng Nghaerdydd ar gyfer hyfforddiant diwydiant (gellir darparu llety yng Nghaerdydd). Efallai y bydd cyfle hefyd i brentisiaid gyfnewid lleoliadau o bryd i'w gilydd, er mwyn ehangu eu profiad.

Am fwy o wybodaeth am y cynllun prentisiaethau, ewch i https://www.wmc.org.uk/cy/yr-hyn-a-wnawn/gyrfaoedd-a-swyddi/prentisiaethau-technegol

## Theatrau Sir Gâr

Mae Theatrau Sir Gâr yn gasgliad o dri lleoliad celfyddydau perfformio o fewn Sir Gaerfyrddin, sef Y Ffwrnes yn Llanelli; Y Lyric yng Nghaerfyrddin; a Theatr y Glowyr yn Rhydaman.

Mae ein gwasanaeth yn cael ei reoli a'i weithredu'n gyfan gwbl gan Gyngor Sir Gâr, fel rhan o'r gwasanaeth Diwylliant a Hamdden o fewn yr adran Cymone.

Y Ffwrnes yw prif leoliad celfyddydau perfformio'r sir. Fe'i hagorwyd yn 2013 gyda buddsoddiad o £15 miliwn yng nghanol Llanelli. Hon yw un o theatrau mwyaf newydd a modern Cymru, ac un o leoliadau gorau'r genedl o ran technoleg. Mae gan y Lyric yng Nghaerfyrddin a Theatr y Glowyr yn Rhydaman dreftadaeth a hanes cyfoethog sy’n cynnig profiad amrywiol i fynychwyr theatr, a chael eu caru’n annwyl gan eu cymunedau priodol. Gyda thri lleoliad gwahanol iawn yn gwasanaethu'r tair prif dref yn y sir, maent yn rhoi'r hyblygrwydd i gyflwyno rhaglen eang, amrywiol a hygyrch i'n cynulleidfaoedd.

## Canolfan Mileniwm Cymru

Mae’r Canolfan yn gartref i’r celfyddydau yng Nghymru, ac yn grochan o greadigrwydd i’r genedl gyfan. Rydyn ni’n tanio’r dychymyg drwy guradu cynyrchiadau teithiol arobryn o’r radd flaenaf – o sioeau cerdd i gomedi a dawns, cabaret a gŵyl ryngwladol. Rydyn ni’n meithrin doniau newydd gyda’n gweithiau ffres, pryfoclyd a phoblogaidd, wedi eu gwreiddio’n ddwfn yn niwylliant ein gwlad. Ac rydyn ni’n ennyn angerdd pobl ifanc dros y celfyddydau, gan roi iddynt gyfleoedd dysgu sy’n newid eu bywydau ac yn rhoi cyfle iddynt ddisgleirio.

## Disgrifiad Swydd

**Oriau:** 35 awr yr wythnos gan gynnwys diwrnodau hyfforddi ac asesu
**Cyflog:** £11,648 y flwyddyn (dan gontract Canolfan Mileniwm Cymru)
**Lleoliad:** Wedi'i leoli yn Theatr y Ffwrnes, Llanelli (gyda gofyniad i weithio ar draws pob un o'r tri lleoliad a ledled y sir yn ôl yr angen)

**Dyddiad cychwyn y brentisiaeth:** 30 Medi 2024, cytundeb Tymor Penodol am 12 mis
**Dyddiad cau:** Dydd Sul 14 Gorffennaf 2024
**Cynhelir y cyfweliadau:** Dydd Mawrth, 23 Gorffennaf 2024 yn Theatr y Ffwrnes, Llanelli

## Rôl a Chyfrifoldebau:

Mae technegwyr theatr cefn llwyfan yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflwyno perfformiadau byw, gan sicrhau bod pob cynhyrchiad yn cael ei gynhyrchu i'r safon uchaf posibl. Prif bwrpas y rôl hon yw datblygu sgiliau arbenigol a throsglwyddadwy mewn meysydd sy'n benodol i grefft llwyfan, goleuo a sain ar gyfer adloniant byw i'r rheiny sydd ar ddechrau eu gyrfaoedd technegol.

O ddydd i ddydd byddwch yn adrodd i'r y Rheolwraig Cyfleusterau a Gweithrediadau ac yn gweithio o dan yr Uwch Dechnegwyr a fydd yn eich integreiddio i'r adran dechnegol ehangach, gan eich gosod ar nifer o brosiectau er mwyn i chi ddarganfod ac ymarfer eich sgìl arbenigol. Byddwch hefyd yn adrodd i'r Cydgysylltydd Prentisiaethau a Hyfforddiant, sy'n goruchwylio'r rhaglen brentisiaethau i sicrhau bod unigolion yn cyrraedd eu targedau ymarferol a'u targedau o ran asesiadau a grëwyd gyda'u tiwtor o Goleg Caerdydd a'r Fro. Mae'r cydgysylltydd hefyd yn gyfrifol am eich amserlen hyfforddiant proffesiynol a fydd yn cynnwys teithiau i ffwrdd o'ch lleoliad arferol.

Dylech ddisgwyl cwblhau gwaith cwrs, asesiadau, a modiwlau hyfforddi fel rhan o'ch diwrnod gwaith, a thrwy gydol y flwyddyn byddwch yn cael sawl asesiad ysgrifenedig, llafar ac ymarferol i weithio tuag at eich cymhwyster Lefel 3 mewn Theatr Dechnegol.

# Y Prif Ddyletswyddau

Dan gyfarwyddyd yr uwch-dechnegwyr:

1. Darparu cymorth technegol ar gyfer cynyrchiadau a phrosiectau/digwyddiadau eraill y mae Theatrau Sir Gâr yn eu cynnal.

2. Cynorthwyo'r adran i osod offer – codi, rigio, ffocysu, ac ati, gan ddefnyddio offer a chyfarpar ar gyfer adeiladu neu gynnal a chadw.

3. Darparu cymorth i griwiau ar brosiectau lle bo angen mewn meysydd fel crefft llwyfan, goleuo, sain a hedfan. Gan gynnwys -

- Cynllunio'r gofynion goleuo ar gyfer cynhyrchiad, gosod a gwirio, gweithredu'r goleuadau a'r sbotolau ar gyfer perfformiad byw.

- Cynllunio'r gofynion sain ar gyfer cynhyrchiad, gosod a gwirio, gweithredu'r sain a'r meicroffonau ar gyfer perfformiad byw.

- Cynllunio'r gofynion hedfan/llwyfan ar gyfer cynhyrchiad, gosod a gwirio, cynorthwyo gyda systemau hedfan/awtomeiddio lle bo hynny'n briodol.

4. Cynnal safonau uchel o ran cadw tŷ. Cadw mannau gwaith yn glir ac yn addas i'w defnyddio.

5. Dewis a defnyddio systemau gwaith diogel ar gyfer gweithio ar uchder.

6. Cwblhau modiwlau asesu ymarferol a theori o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt.

# Manyleb Person

## Hanfodol

- Dealltwriaeth o theatr dechnegol a diddordeb amlwg mewn gweithio gefn llwyfan.

- Prawf o weithio yn unol â therfynau amser o safbwynt ymarferol a theori.

- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gref o iechyd a diogelwch, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol i'r theatr.
- Y gallu a'r parodrwydd i ymgymryd â dysgu academaidd a gweithredu portffolios ar-lein wrth gasglu a lanlwytho tystiolaeth ar gyfer asesiadau.

- Agwedd gadarnhaol ac adeiladol wrth gysylltu â chydweithwyr a chleientiaid, gan ddangos arweinyddiaeth a hyblygrwydd yn eich dull o ymdrin â thasgau.

- Mentro a dangos hunanfeddiant wrth wynebu heriau yn y gwaith neu'r coleg.

- Bod yn atebol wrth reoli eich wythnos waith i gwblhau modiwlau i ennill eich cymhwyster.

- Dangos sgiliau da o ran ymwneud ag eraill a gweithio mewn tîm wrth weithio mewn sefydliad mawr gydag unigolion o gefndiroedd, safbwyntiau a hunaniaethau gwahanol.

- Y gallu i weithio oriau anghymdeithasol, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc.

- Cydymffurfio â pholisïau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â gweithio gefn llwyfan, gan gynnwys gweithio ar uchder, codi a chario a gweithio gyda thrydan, yn ogystal â gwisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol lle bo angen.

- Y gallu i deithio i Gaerdydd ar gyfer hyfforddiant ac i leoliadau eraill ledled Sir Gaerfyrddin.

**Dymunol**

- Profiad blaenorol o weithio ym maes theatr dechnegol (boed yn wirfoddol neu ar gynyrchiadau ysgol/coleg).

- Gwybodaeth am ardaloedd cefn llwyfan a'r offer a ddefnyddir.

- Llythrennedd cyfrifiadurol, prawf o weithio gyda phecynnau Microsoft Office a phortffolios ar-lein.

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg

- Y gallu/parodrwydd i weithio ar uchder yn ddiogel.

# Y Broses Recriwtio

**Dilynwch y ddolen isod i lenwi’r ffurflen gais.**

https://forms.gle/o34Rvq1Sxu2FTdJK9

Bydd y ffurflen gais yn gofyn i chi nodi eich hanes addysg a hyfforddiant, a'ch hanes gwaith. Bydd hefyd yn gofyn i chi gynnwys datganiad ysgrifenedig byr i amlinellu'r sgiliau a'r profiad rydych wedi'u hennill trwy waith cyflogedig a/neu wirfoddol a gweithgareddau a diddordebau eraill sy'n berthnasol i'ch cais y swydd hon.

Eich cais fydd ein pwynt cyswllt cyntaf gyda chi. Dyma ein ffordd o lunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad. Sicrhewch fod pob cwestiwn yn cael ei ateb yn glir ac yn gryno ond mor llawn â phosibl.

Rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y proffil rôl yn ofalus cyn i chi lenwi eich ffurflen gais. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys rhestr fanwl o ddyletswyddau'r rôl a'r meini prawf hanfodol a dymunol rydym yn chwilio amdanynt.

Llenwch y ffurflen gais yn drylwyr. Nid yw ffurflenni nad ydynt wedi'u cwblhau'n drylwyr yn dderbyniol ac ni fyddwch yn cael eich cynnwys yn y broses o lunio rhestr fer.

Peidiwch ag anfon CV ar ei ben ei hun yn lle'r ffurflen gais. Fel rhan o'n proses recriwtio, mae angen llenwi ffurflen gais. Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd neu os oes angen cymorth gyda'r ffurflen gais, cysylltwch â Rhian drwy ebostio RhianWynEvans@SirGar.gov.uk neu ffoniwch 01554 744 405.

Rydym yn disgwyl i chi roi tystiolaeth o'ch dealltwriaeth o theatr dechnegol gefn llwyfan a pha feysydd sydd o ddiddordeb penodol i chi a pham. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn gallu dysgu neu ddangos sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da, gan y byddwch yn gweithio mewn sefydliad mawr gyda phobl o gefndiroedd, safbwyntiau a hunaniaethau gwahanol. Yn olaf, dylech ddangos tystiolaeth o agwedd dda a pharodrwydd i weithio'n broffesiynol, dysgu sgiliau newydd a datblygu gwaith cwrs.

Am sgwrs anffurfiol cyn gwneud cais, cysylltwch â Rhian drwy ebostio RhianWynEvans@SirGar.gov.uk

## Pethau i’w hystyried

Bydd angen i ymgeiswyr fod ar gael ar gyfer yr wythnos sefydlu, sef yr **wythnos sy'n dechrau ar 30 Medi 2024**.

Mae oriau gwaith prentis yn amrywio o wythnos i wythnos. Mae'n dibynnu mewn gwirionedd ar ofynion y cynhyrchiad rydych chi'n gweithio arno. Rhaid i ni bwysleisio **nad yw hon yn rôl 9 i 5**, felly rydym yn annog ymgeiswyr i feddwl yn galed ynghylch a yw'r math hwn o waith yn addas ar eu cyfer pe bai gwrthdaro o ran hyn. Rydym hefyd yn eich annog i feddwl am eich trefniadau teithio ac a yw'n ymarferol i chi ar hyn o bryd.

### Cyrraedd y gwaith

Fel unrhyw rôl, mae angen i chi feddwl **am gyrraedd y gwaith ac yn ôl**. Mae gan Theatrau Sir Gâr leoliadau yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Rhydaman, gyda gorsafoedd drenau a bysiau ym mhob un o'r tair tref. Cofiwch efallai na fydd trafnidiaeth gyhoeddus mor rheolaidd ag y mae mewn dinasoedd mawr.  Os ydych yn gweithio'n hwyr yn y nos ac yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, bydd angen i chi gynllunio sut rydych yn teithio. Bydd angen i chi hefyd ystyried pa mor hir y bydd yn ei gymryd yn ogystal â faint y bydd yn ei gostio i chi.

### Bod yn drefnus

Yn ogystal â'ch rôl, bydd angen i chi hefyd gwblhau rhai asesiadau ymarferol sy'n hanfodol i'r brentisiaeth. Ni allwch gwblhau'r brentisiaeth a chael ardystiad hebddynt.

Rydym yn disgwyl i chi fod yn gwbl ymrwymedig i bob agwedd ar y rhaglen, bod yn barod ar bob tasg a rheoli eich terfynau amser. Mae methu yn rhan o'r holl broses ddysgu ond sut rydych chi'n ymateb yw'r hyn sy'n bwysig, ond byddwch yn dawel eich meddwl - bydd gennych rwydwaith cymorth cryf y tu ôl i chi.

### Pwy sy'n gallu ymgeisio?

I fod yn rhan o'r cyfle cyffrous hwn, mae'n rhaid i chi fod **yn 18 oed neu'n hŷn** i wneud cais.

Nid oes unrhyw gymwysterau gofynnol, ond rydym yn annog yn gryf y rheiny heb addysg ffurfiol i wneud cais. Os nad oes gennych radd C neu

uwch mewn Mathemateg a Saesneg lefel TGAU, bydd yn rhaid i chi ddilyn cyrsiau ychwanegol i ennill cymhwyster Mathemateg a/neu Saesneg.

Os oes gennych radd C neu uwch eisoes, ni fydd angen i chi ddilyn y cyrsiau hyn.

Nid yw'r rhaglen hon yn addas i unrhyw un sy'n dal i astudio, felly os ydych chi rhan o'r ffordd drwy gwrs ac y byddai angen i chi ddychwelyd i astudio ar ôl y brentisiaeth, nid ydych yn gymwys.

Ni ellir ymgymryd â'r lleoliad hwn fel lleoliad gwaith fel rhan o'ch cwrs.